OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3050 (Cy.267)

CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

Gorchymyn Strategaethau Troseddau ac Anhrefn (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*16 Tachwedd 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*28 Rhagfyr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 5(2) a (3), ac 114 o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Strategaethau Troseddau ac Anhrefn (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 28 Rhagfyr 2009.

Disgrifiadau rhagnodedig o bersonau neu o gyrff at ddibenion adran 5(2) o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998

2.—(1) Mae'r erthygl hon yn rhagnodi, at ddibenion adran 5(2) o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998, y disgrifiadau o bersonau neu o gyrff y mae'n ofynnol i awdurdodau cyfrifol gydweithredu â hwy wrth iddynt arfer y swyddogaethau a roddwyd gan adran 6 o'r Ddeddf honno.

(2) Y personau neu'r cyrff hynny, o ran pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru, yw—

(a) cyngor cymuned yn yr ardal honno;

(b) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan Ran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990(**3**) neu Ran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**4**);

(**1**) 1998 p.37. Diwygiwyd adran 5(2) gan adran 97(4) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (p.30) a pharagraff 13(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Tramgwyddwyr 2007 (Diwygiadau Canlyniadol) 2008 (O.S. 2008/912). Diwygiwyd adran 5(3) gan adran 97(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Amnewidiwyd adran 6 gan baragraff 3 o Atodlen 9 i Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p.48).

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd gan adran 5(2) a (3) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1990 p.19.

(c) corff llywodraethu ysgol, o fewn ystyr adran 4(1) o Ddeddf Addysg 1996(**5**), yn yr ardal honno, a honno'n ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol;

(ch) perchennog ysgol annibynnol, o fewn ystyr adran 463 o'r Ddeddf honno, yn yr ardal honno;

(d) corff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach, fel y'i diffinnir yn adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**6**), yn yr ardal honno;

(dd) Gweinidogion Cymru;

(e) landlord cymdeithasol, sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996(**7**), sy'n landlord llety yn yr ardal honno.

Disgrifiadau rhagnodedig o bersonau neu gyrff at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn rhagnodi, at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998, y disgrifiadau o bersonau neu o gyrff y mae'n rhaid i o leiaf un o bob disgrifiad ohonynt gael ei wahodd gan awdurdodau cyfrifol i gymryd rhan wrth iddynt arfer y swyddogaethau a roddwyd gan adran 6 o'r Ddeddf honno.

(2) Y personau neu'r cyrff hynny, o ran pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru, yw—

(a) Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) sefydliad gwirfoddol sy'n gweithredu yn yr ardal honno a'i amcanion yw rhoi cymorth i bobl ifanc drwy waith ieuenctid neu addysg anffurfiol;

(c) Gwasanaeth Erlyn y Goron;

(ch) Rheolwr Llys yn Llys y Goron;

(d) yr Arglwydd Ganghellor;

(dd) cynrychiolydd Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth yn yr ardal honno;

(e) aelod o Gynllun Cymorth i Ddioddefwyr yn yr ardal honno sy'n gysylltiedig â Chymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Cymorth i Ddioddefwyr;

(f) heddlu'r lluoedd fel y'i diffinnir ym mharagraff (3), os oes unrhyw sefydliad milwrol o fewn yr ardal honno;

(ff) heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, os oes unrhyw fan y mae adran 2(2) o Ddeddf Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn 1987(**8**) yn gymwys iddi o fewn yr ardal honno;

(g) corff sy'n darparu cludiant i'r ysgol o fewn yr ardal honno;

(ng) corff sy'n darparu neu'n gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus o fewn yr ardal honno;

(h) o ran pob un o'r disgrifiadau a ganlyn, corff sy'n hybu buddiannau pobl o'r disgrifiad hwnnw o fewn yr ardal honno, neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt—

(i) menywod;

(ii) yr ieuanc, gan gynnwys plant;

(iii) yr henoed;

(iv) y rheini ag anabledd corfforol a'r rheini ag anabledd meddyliol;

(v) y rheini o grwpiau hiliol gwahanol o fewn ystyr adran 3(1) o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976(**9**);

(**4**) 2006 p.42.
(**5**) 1996 p.56.
(**6**) 1992 p.13.
(**7**) 1996 p.52.
(**8**) 1987 p.4.
(**9**) 1976 p.74.